



COFNODION CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL CYNTAF **ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES**

Cynhaliwyd ddydd Sadwrn 8 Ebrill 2017 ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn

Yn bresennol:

Swyddogion – John Graystone (Cadeirydd Interim), Kathryn Robson (Prif Weithredwr Dros Dro), Stephen Thomas (Ysgrifennydd y Cwmni/Clerc y Cyngor) (3).

Aelodau Unigol, Staff a Llywodraethwyr – Vivien Allen, David Ashman, Mark Baines, Miranda Edwards, David Elis-Williams, Tudur Evans, Jeremy Gass, Jonathan Goddard, Maria Hartill, Mike Hewitt, Cath Hicks, Llinos Hicks, Gayle Hudson, Glenys Hughes-Jones, Iwan Hywel, Gerry Jenson, Evie Wyn Jones, Nathan Jones, Sarah K Jones, Michelle Kerswell, Ros McAlister, Ronnie Parry, Graham Price, Sharon Reader, Dafydd Rhys, Julie Roberts, Susan Roberts, Toni Schiavone, Mick Scraggs, Nick Taylor, Alan Tinsley, Buddug Wiliam (32).

Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Cangen – Cathy Clark (Y Coed-duon ac Oakdale), Jenni Jones-Annetts (Caerffili), David MacManus (Caerffili), Sonia Reynolds (Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Twrch), Marilyn Thomas (Caerffili) (5).

Cynrychiolwyr Fforymau Dysgwyr neu Gorff Cysylltiedig a Phartner – Dafydd Eurgain Jones (Fforwm Dysgwyr Ffestiniog), Dilwyn Llwyd (Fforwm Dysgwyr Neuadd Ogwen), Anna Lockwood (Emerge Community Arts) (3).

Perfformwyr, Anerchwyr, Archwilydd a Chyfieithydd – Blues Face Band, Ann Woods, Scott Jenkinson, Siôn Aled Owen (Cyfieithu ar y Pryd); Richard Knoyle (Archwilydd, Btp Associates Ltd.: cofnodion 1-3 yn unig) (9).

Ymddiheuriadau:

Leanne Andreadis, Sarah Burrows, Karyl Carter (Y Gymdeithas Strôc), Colette Chilcott, Julie Cook (Wales TUC Cymru), Gareth Cork, Deborah Crecraft, Nichola Crow, Andrea Davies, Caroline Davies, Viv Davies, Cath Dawkes, Maggi Dawson, Mandy Doyle, Phil Elias, James Fleming, Jan Francis, Christine Franks, Christopher Franks, Christina Gallagher, Tracy Garnett, Adele Gatt, David Girdler, Dai Griffiths, Fran Griffiths, Adrian Heathfield, Mena Ifans, Jayne Ireland, June Jeremy, Lynne Jones, Victoria Knappett, Matthew Lloyd, Betty Mason, Clive Morgan, William John Morris, Sarah Murphy, Ray Neil, Mary Newman (Cangen Global Community Learning), Annie O'Brien, Tim Owen, Sian Raftree (Fforwm Dysgwyr Coleg Harlech), Martyn Reed, Donna Ridler, Lois Roberts (Fforwm Dysgwyr Coleg Harlech), Wendy Roberts, David Smith, Ceinwen Statter (Cangen y Coed-duon ac Oakdale), Jan Tiley, Lisa Voyle (Cangen Llanelli), Rebecca Watson Stubbs, Margaret

Whitcombe, Heather Willbourn, Ceri Williams, Huw Williams (Cangen Merthyr), Marjorie Williams (55).

Eitem	ADDYSG OEDOLION CYMRU ADULT LEARNING WALES CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2017
1.	<p>Croeso a Chyfraniadau Anerchwyr</p> <p>Fe wnaeth John Graystone groesawu pawb, diolch i'r band Blues Face am ei berfformiad cynharach, cyfeirio at yr arddangosfa o sleidiau ffotograffig gwaith myfyrwyr y tiwtor Mick Scraggs, a gwneud rhai cyhoeddiadau cadw tŷ.</p> <p>Yna, fe wnaeth Ann Woods, Prif Swyddog ein sefydliad partner, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, siarad am ei chysylltiad ag addysg oedolion ers 22 flynedd – fel dysgwr yn mynd yn ôl at addysg yn dilyn cyfnod o salwch ac, erbyn hyn, fel hyrwyddwr ei rôl annatod mewn gwaith cymunedol. Roedd ei sefydliad hi'n canolbwyntio ar les pobl, eu hiechyd a gweithgareddau dinasyddiaeth, bob un ohonynt yn ganolog i'r dysgu a ddarparwyd gan Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales. Yn ei rôl fel cynrychiolydd, roedd hi'n hyrwyddo pwysigrwydd ein sector mewn fforymau cenedlaethol, fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mynegodd ddiolch yn bersonol ac yn broffesiynol am y gwaith a wnaed.</p> <p>Roedd Scott Jenkinson yn diwtor gydag Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales, ac yn cyd-fynd â'i anerchiad yr oedd ffilm ohono'n derbyn Gwobr Ysbrydoli genedlaethol yn 2015 am ei gyfraniadau fel athro. Siaradodd am ei gyfnod yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau, a sut rhoddodd Coleg Harlech gyfle o'r newydd iddo a wnaeth arwain yn y pen draw at astudio ym Mhrifysgol Bangor a chwblhau Cwrs TAR, er iddo lithro'n ôl am gyfnod i gamddefnyddio eto. Erbyn hyn, roedd yn addysgu mewn uned atal digartrefedd, gyda myfyrwyr sy'n adsefydlu ac sydd ar brawf, ac roedd hefyd yn hyfforddi athrawon. Diolchodd i WEA (fel yr oedd) am roi'r cyfleoedd a newidodd ei deimladau o hunan-barch a'i ragolygon. Roedd pawb ar eu traed yn cymeradwyo'i anerchiad.</p>
2.	<p>Cyflwyniad, cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol blaenorol a diweddariad ynghylch y camau a gymerwyd yn sgil cynigion y cytunwyd iddynt yno</p> <p>Nododd y Cadeirydd farwolaeth Huw Williams o Fwlchtocyn, un o hoelion wyth ei gangen leol a'r sefydliad yn gyffredinol yng ngogledd Cymru.</p> <p>Cadarnhaodd fod y cyfarfod wedi'i gynnull yn gywir, yn gyfansoddiadol, a bod y nifer yn gwneud cworwm. Fe wnaeth Sarah K Jones arddangos system bleidleisio awtomataidd <i>Plickers</i> a fyddai'n cael ei roi ar brawf yn ystod pleidlais yn ddiweddarach yn ystod y prynhawn.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion drafft Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol WEA YMCA CC Cymru, a gynhaliwyd yn YMCA Casnewydd ar 16 Ebrill 2016, yn gofnod cywir (cynigiwyd: Graham Price; eiliwyd: Jenni Jones-Annetts).</p>

	<p>O ran camau gweithredu dilynol yn ymwneud â'r pum cynnig y cytunwyd iddynt yng Nghasnewydd, roedd papur yn amlinellu'r datblygiadau wedi'i ddarparu i bawb adeg Cofrestru. O ran Cynnig 3 (cymorth ar gyfer costau gofal neu ofal plant), er bod y ddarpariaeth feithrin a esboniwyd yno i'w groesawu, nododd Jeremy Gass fod cysylltiad agos rhwng darparu meithrinfeydd a phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf (oedd ar fin dod i ben), ac i bob diben roeddent wedi'u cyfyngu i dde-ddwyrain Cymru. Ymatebodd Sharon Reader gan ddweud bod prosiectau Dechrau'n Deg hefyd wedi darparu cymorth o'r fath ar adegau a nod ceisiadau am grantiau yn y dyfodol fyddai cynnwys anghenion o'r fath. Oherwydd yr ansicrwydd yn hyn o beth, cytunwyd y byddai diweddariad yn cael ei roi ar y sefyllfa hon yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018.</p>
3.	<p>Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol 2015/16 Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales</p> <p>Yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol fel yr oedd, cyfeiriodd David Elis-Williams bawb a oedd yn bresennol at yr Adroddiad a'r Datganiadau Ariannol Llawn a oedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg er gwybodaeth iddynt adeg Cofrestru, gan ymhelaethu ar ddogfen y crynodeb ariannol a ddosbarthwyd gyda phapurau aelodau ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar flwyddyn gyntaf corff unedig WEA YMCA CC Cymru wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Wrth reswm, bu'n flwyddyn o drawsnewid, yn cynnwys ailstrwythuro'r staff, costau ychwanegol yn deillio o newidiadau i staff a gorddarpariaeth addysgu. O ganlyniad i hyn, roedd diffyg o £490,000: o'r amcanion ariannol a osodwyd ar gyfer y sefydliad ar gyfer y flwyddyn, cyflawnwyd 3 a methwyd 3 ohonynt.</p> <p>Dyma'r flwyddyn gyntaf pan gyflwynwyd y cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol newydd 102 a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015. Dangosodd fod diffyg cyfunol, wedi'i ail-gyfrifo, y cyrff gwahanol yn 2014/15, cyn uno, yn fwy arwyddocaol nag y cyfrifwyd ar ei gyfer yn flaenorol, a oedd o bryder i Graham Price. Roedd ef am gael sicrwydd bod camau rheoli ar waith, yn 8fed mis blwyddyn ariannol 2016/17, i sicrhau nad oedd y duedd hon o ddiffyg yn parhau nac, yn wir, yn gwaethygu. Dywedodd Mark Baines, Pennaeth Cyllid, a David Elis-Williams fod cwestiynau o'r fath am sicrwydd wedi'u codi ar lefelau Pwyllgor a Chyngor dros y misoedd diwethaf a bod gwelliannau i systemau data myfyrwyr ac ailstrwythuro'r staff wedi golygu gwell monitro a gostyngiad mewn costau.</p> <p>Ar ran yr archwilwyr Btp Associates Ltd., cyfeiriodd Richard Knoyle bobl at y nodiadau ar ddiwedd y Datganiadau Ariannol a oedd yn esbonio'r ailgyfrifiadau a wnaed oherwydd y gyfundrefn gyfrifo newydd. Ychwanegodd fod adroddiad yr archwilwyr yn ddiamod (h.y. yn gadarnhaol).</p> <p>Cynigiwyd y dylid derbyn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y flwyddyn yn diwedd ar 31 Gorffennaf 2016 (cynigiwyd: Gerry Jenson; eiliwyd: Toni Schiavone) a chymeradwywyd hyn yn unfrydol.</p>

4.	<p>Penodi archwilwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17</p> <p>Dan anogaeth Cod Ymarfer Archwilio Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach, sef i adolygu penodiad archwilwyr allanol bob pum mlynedd, roedd y flwyddyn bresennol yn parhau o fewn y cylch pum mlynedd hwnnw. Felly, cymeradwyodd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ailbenodi Btp Associates Ltd. o Ferthyr Tudful yn archwilwyr Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales ar gyfer 2016/17 yn unfrydol (cynigiwyd: Jeremy Gass; eiliwyd: Cathy Clark).</p>
5.	<p>Adroddiad y Prif Weithredwr Dros Dro ar waith y flwyddyn</p> <p>Siaradodd Kathryn Robson am ein 18,000 o ddysgwyr ym mlwyddyn academiaidd 2015-16 fel y rheswm dros ein bodolaeth, a bod eu hymrwymiad nhw ochr yn ochr ag ymrwymiad tiwtoriaid, staff a gwirfoddolwyr – a welwyd gan y perfformwyr a’r arddangosfeydd ffotograffiaeth cynharach – yn rhagorol. Roedd ein gwaith digidol yn arwain y sector a chawsom lwyddiant trwy ein dysgwyr yng Ngholeg Harlech, bob un ohonynt wedi ennill lle mewn prifysgol. Roedd taflen a ddsbarthwyd adeg Cofrestru yn esbonio cefndir demograffig ein gwaith yn 2015-16, a hefyd y 10,000 a mwy o ddysgwyr a oedd eisoes wedi cael addysg ym mlwyddyn academiaidd 2016-17.</p> <p>Yn ei 8 mis yn y swydd, roedd Kathryn Robson wedi mwynhau cymryd rhan mewn Fforymau Rhanbarthol a gweld y partneriaethau cadarn a oedd ar waith gyda chyrrff fel y rhai dan arweiniad Ann Woods. Ein bwriad oedd parhau’n brif ddarparwr dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru. I sicrhau y byddai hynny’n digwydd, roedd gennym gysylltiad annatod â’r Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned a wnaed gan Lywodraeth Cymru a’i gyfnod ymgynghori dilynol. Byddai ein henw a’n brand newydd yn helpu cydweithwyr, aelodau a chefnogwyr i gyflawni’r safon a’r gydnabyddiaeth yr oedd eu hangen i gynnal ein safle blaenllaw.</p>
6.	<p>Adroddiad y Cadeirydd ar y flwyddyn ddiwethaf a’r rhestr o Lywodraethwyr yn ystod 2016/17</p> <p>Roedd rhestr y llywodraethwyr a oedd wedi gwasanaethu yn ystod y cyfnod ers Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y llynedd yng Nghasnewydd wedi’i dosbarthu gyda phapurau’r cyfarfod. Diolchodd John Graystone i’r rhai a fu yn eu swydd am ran helaeth o’r flwyddyn, gan oedd cyflawni newid cyfansoddiadol wedi arwain at ddau estyniad i’w tymhorau. Hefyd, fe wnaeth longyfarch y llywodraethwyr newydd eu hethol a’u penodi, a fyddai’n gwasanaethu ar y Cyngor a ddechreuodd ar ei waith ar 1 Ebrill 2017.</p> <p>Cefnogodd yr hyn a ddywedodd Kathryn Robson, a phwysigrwydd adeiladu ar etifeddiaeth falch y ddau sefydliad a oedd wedi uno. Ymhlith datblygiadau i’w nodi ers y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol blaenorol oedd creu Llywodraeth Cymru newydd gyda thri phenodiad yn rhannu’r portffolio addysg, a chanlyniadau annisgwyl pleidlais y refferendwm ar yr UE ac etholiad Unol Daleithiau America,</p>

bob un ohonynt yn pwysleisio pwysigrwydd parhau i roi addysg wleidyddol i'n dysgwyr. Gyda'r angen i weithredu ar gasgliadau Adolygiad Hazelkorn, roedd hi'n bwysig nad oedd galwadau eraill ar gyllid yn tanseilio blaenoriaeth deg cyllid ar gyfer addysg bellach. Roedd Adolygiad Llywodraeth Cymru o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned wedi arwain at amrywiol opsiynau i'w hystyried o ran ffurf dysgu oedolion yn y dyfodol, gydag opsiwn pellach a ychwanegwyd braidd yn annisgwyl yn ddiweddar, sef bod colegau addysg bellach yn arwain y ddarpariaeth. Byddid yn galw ar gymorth aelodau i sicrhau mai canlyniad y cyfnod ymgynghori presennol fyddai'r mwyaf cadarnhaol posibl i'n sefydliad.

Er gwaethaf twf yn nifer y boblogaeth oedd yn oedolion ac anghydraddoldebau mewn cymdeithas, roedd cyllid ar gyfer addysg bellach wedi gostwng dros y degawd diwethaf. Fe wnaeth ddyfynnu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, yn sôn am bontio'r bwlch rhwng y 'breintiedig' a'r 'difreintiedig': roedd yn crynhoi'n rôl ninnau yn berffaith wrth anelu at degwch i bawb a rhwymo cymdeithas ynghyd.

Diolchodd Jeremy Gass i'r Cadeirydd am ei araith a gofynnodd sut gallai aelodau unigol roi cymorth ymarferol i'r sefydliad o safbwynt yr Adolygiad o Addysg Oedolion yn y Gymuned. Er bod ansicrwydd o hyd ynghylch sut byddai'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad yn mynd yn ei flaen, byddai'r Grŵp Ymgyrchu a wnaeth chwarae rôl yn y sefydliad yn y gorffennol diweddar (yn cynnwys cyfuniad o gynrychiolwyr y Cyngor a Phwyllgorau, ynghyd ag aelodau unigol) yn chwarae ei ran yn hyn o beth eto. Roedd ansicrwydd ynghylch tarddiad y pedwerydd opsiwn, sef bod colegau addysg bellach yn cydlynu'r broses - nid o lobio gan y colegau eu hunain mae'n debyg, gan nad oedd hi'n glir p'un a oedd ganddynt y seilwaith i'w gyflawni. Roedd Kathryn Robson yn arwain yn weithgar ar hyn yn y grŵp Penaethiaid o fewn Colegau Cymru. Os un corff cydlynu ar gyfer Cymru gyfan fyddai'r opsiwn a roddir ar waith, yna byddai angen i ni weithio'n agos gyda phartneriaid ac roedd o'r farn bod partneriaethau da ar waith gennym yn barod, gan gynnwys partneriaethau â cholegau (yn enwedig yng ngogledd Cymru).

Yn ogystal, gofynnodd Jeremy Gass pam roedd y Cyngor a oedd wedi ymgymryd â'i waith yr wythnos gynt 3 aelod yn fyr (h.y. yn cynnwys 17 yn hytrach nag 20 aelod). Esboniodd y Cadeirydd mai'r rheswm dros hyn oedd methu â chyflawni pob penodiad trwy'r broses gyfweld a bod cynlluniau ar waith i gywiro hyn yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, amlygodd Jeremy Gass mai'r enw cywir ar gyfer corff llywodraethol y sefydliad oedd 'Cyngor': roedd yn well ganddo deitl 'aelod o'r Cyngor' gan fod hwn yn ymgorffori'r tair rôl a oedd gan bobl o'r fath (cyfarwyddwr cwmni, llywodraethwr sefydliad Addysg Bellach ac ymddiriedolwr elusen) ac roedd yn anfodlon gweld bod yr enw unigol 'llywodraethwr' yn cael ei ordddefnyddio yn nogfennau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd y 3 rôl yn bwysig ac, yn wir, roedd o'r farn bod yr enw 'ymddiriedolwr' yn adlewyrchu ein cefndir sector gwirfoddol yn fwy cywir, pe bai angen teitl byr.

Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn ffurfiol gan y cyfarfod.

7.	<p>Cynrychiolwyr yn Llysoedd Prifysgolion Aberystwyth a Chaerdydd</p> <p>Atgoffodd Stephen Thomas y rhai a oedd yn bresennol fod penodiadau wedi'u gwneud yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015 i 4 llys prifysgol yr oedd gan y sefydliad (sef WEA Cymru gynt) aelodaeth ohonynt. Oherwydd newid i'r staff a diwedd cyfnod un enwebai yn y rôl, roedd angen llenwi 2 o'r lleoedd hynny. Enwebwyd Kathryn Robson ar gyfer Prifysgol Aberystwyth a chynigiwyd bod Elaine Gwynne yn parhau yn ei rôl yn Llys Prifysgol Caerdydd. Cymeradwywyd y ddau, gydag awgrym bod proses enwebu fwy agored yn cael ei defnyddio ar gyfer cynrychiolwyr o'r fath yn y dyfodol.</p>
8.	<p>Cynigion i'w Trafod</p> <p>Etholwyd Maria Hartill a Mark Baines yn rhifwyr ar gyfer gweithdrefnau pleidleisio ar y pum cynnig. Roedd y system bleidleisio ddirprwyol yn ein Cyfansoddiad yn golygu bod Ysgrifennydd y Cwmni wedi derbyn 46 pleidlais ychwanegol ymlaen llaw: penodwyd y Cadeirydd yn ddirprwy ar gyfer 41 ohonynt, gyda'r 5 pleidlais arall i'w bwrw gan ddirprwyon wedi'u henwi o blith aelodau o'r Llawr. Byddai'r 5 hyn yn cael eu hychwanegu at y pleidleisiau fyddai'n cael eu cyfrif gan y rhifwyr.</p> <p>Cynnig 1</p> <p><i>Wrth nodi bod Egwyddor gyntaf ein Herthyglau Cymdeithasu yn cyfarwyddo Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales i 'weithredu ar egwyddorion democrataidd yn ei threfniant a'i harferion, drwy gyfranogaeth ei haelodau gwirfoddol', mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn yn gorchymyn y Cyngor i baratoi rhaglen i annog a datblygu aelodaeth weithgar a chyfrannog i'r mudiad ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac i adrodd yn ôl ar gynnydd at Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018.</i></p> <p>Cynigydd: Graham Price; Eilydd: Viv Davies (eiliwyd yn ffurfiol ar y diwrnod gan Jeremy Gass).</p> <p>Esboniodd Graham Price fod y sefydliad braidd yn deuluol ei natur, gydag amcanion cyffredin er bod dyheadau amrywiol ymhlith dysgwyr, cynrychiolwyr sefydliadau partner, tiwtoriaid neu staff cymorth. Oherwydd bod llai o weithredu torfol mewn cymdeithas yn gyffredinol, nid oedd ein dysgwyr mor gyfarwydd â thorfoldeb ddemocrataidd ag y buont yn hanesyddol ac roedd ganddynt lai o brofiad ohono: felly roedd angen cymorth y sefydliad arnynt â'r agwedd honno ar eu bywyd. Yn y gorffennol diweddar, roedd amryw endid wedi bodoli, fel y Pwyllgor Mudiadau Gwirfoddol a grŵp Cadeiryddion y Fforymau Rhanbarthol. Dylid cynnal y strwythurau hyn neu rai tebyg er mwyn annog gweithgarwch torfol ymhlith yr aelodau. Cefnogodd Toni Schiavone y cynnig a'r modd yr oedd yn pwysleisio pwysigrwydd traddodiadau democrataidd y sefydliad. Roedd datblygu sgiliau ein staff yn y maes hwnnw yn allweddol i'n gwaith ar ddeall cynrychiolaeth a thorfoldeb, a chryfhau gallu ein Fforymau Rhanbarthol hefyd. Yn yr ystyr honno, dylai anghytundeb o fewn y sefydliad gael ei ystyried yn fesur cryfder. Ymatebodd Sharon Reader trwy sôn am y camau a gymerwyd i gryfhau'r Tîm Gwasanaethau Dysgwyr ac wrth adolygu'r strategaeth aelodaeth; roedd arolwg o'r aelodau ar fin</p>

cael ei gyhoeddi ynghylch hyn.

Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn (cafodd y bleidlais ei chyfrif drwy Plickers):

**O blaid: 92
Yn erbyn: 1
Atal pleidlais: 1**

Cynnig 2

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol hwn, wrth nodi'r heriau sydd yn wynebu addysg i oedolion, yn cadarnhau ei ymrwymiad at ddiben cymdeithasol i Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales gyda'r nod o greu democratiaeth hyddysg a chyfranogol.

Cynigydd: Jeremy Gass; Eilydd: Joe England (eiliwyd yn ffurfiol ar y diwrnod gan Graham Price).

Siaradodd Jeremy Gass am y ffaith bod y sefydliad wedi'i wthio i ddiben a chyfeiriad economaidd yn bennaf dros nifer o flynyddoedd oherwydd polisïau'r llywodraeth ac mai bwriad y cynnig hwn oedd ailddatgan diben cymdeithasol ar gyfer addysg oedolion. Er mwyn i hynny weithio, roedd angen datblygu sgiliau democrataidd, a oedd yn cynnwys defnyddio technegau dysgu democrataidd. Roedd Sonia Reynolds yn gefnogol iawn o'r cynnig hwn; dywedodd Kathryn Robson fod y cysyniad canolog yn y cynnig wedi'i wreiddio'n ddwfn yn ein gwerthoedd a'n cenhadaeth a bod y sefydliad yn ymroddedig o hyd i'r materion hyn.

Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:

**O blaid: 84
Yn erbyn: 8
Atal pleidlais: 0**

Cynnig 3

(Cynnig a basiwyd gan Fforwm Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales ddydd Iau 2 Mawrth 2017 o 13 pleidlais i o, gyda 2 bleidlais wedi'u hatal.)

Mae'r cyfarfod hwn o Fforwm Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru yn nodi'r penderfyniad gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i:

- *ddod i ben â darpariaeth addysg ar safle Wern Fawr yng Ngholeg Harlech ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon, wedi go mlynedd;*
- *barhau i chwilio am opsiynau am ddyfodol cynaliadwy a hirdymor ar gyfer y safle.*

Mae'r Fforwm Rhanbarthol hwn yn annog ac yn argymhell Cyngor Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales i ystyried y cynnig hwn ac i fabwysiadu'r blaenoriaethau canlynol:

1. *Cydnabod bod ystad Coleg Harlech yn ased gwerthfawr i Addysg Oedolion Cymru |*

Adult Learning Wales.

2. Sicrhau bod defnydd parhaol yn cael ei ddarganfod am adeilad Wern Fawr yng Ngholeg Harlech fel nad ydyw'n dadfeilio.

3. Cydnabod hanes Coleg Harlech ym maes addysg i oedolion yng Nghymru a pharchu amcanion y noddwyr hael hynny ag ariannodd y prynu a'r adeiladu o'i oll adeiladau ac ystâd er mwyn cefnogi cyfleoedd addysgol i oedolion yn Harlech.

4. Mor bell ag yn bosibl i hwyluso parhad Theatr Ardudwy fel rhan o adeilad Wern Fawr, yr hwn hefyd a adeiladwyd trwy roddion haelionus a thanysgrifiadau cyhoeddus.

5. Ufuddhau'r cynnig o'r CCB diwethaf (2016), sef "i wneud popeth o fewn ei bwerau i barhau i ddarparu addysg ar safle Coleg Harlech ac i ymestyn y ddarpariaeth yno neu rywle arall yn y cyffiniau": er enghraifft, i barhau addysg ar lythrennedd digidol a Lefel 3 (ar hyn o bryd mewn cwrs paratoawl i brifysgol Tystysgrif Sylfaenol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) yn Llyfrgell Wern Fawr, gan ddefnyddio gwaddol cynysgaeddiad cyfalaf Tudor Bowen Jones o £720,000 a chronfeydd eraill preifat a erys, pob un ohonynt a roddwyd i Goleg Harlech a'i fyfyrwyr.

Cynigydd: Annie O'Brien; Eilydd: Ros McAlister (eiliwyd yn ffurfiol ar y diwrnod gan Nick Taylor).

Siaradodd Ros McAlister am gyfraniad hanesyddol Coleg Harlech at achos addysg i oedolion yng Nghymru. Roedd hi'n ymwybodol o'r heriau a oedd yn bodoli, ond hefyd o'r arian a roddwyd i'r sefydliad a bod grwpiau a gwleidyddion lleol yn gefnogol iawn o'r angen i gynnal presenoldeb addysgol yno. Roedd y cymorth a ddangoswyd gan bleidlais Fforwm Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru y mis blaenorol yn pwysleisio y dylem ystyried bod y safle, gan gynnwys adeilad Wern Fawr, yn ased yn hytrach nag yn faich. Roedd hyn yn golygu na ddylid gadael iddo gael ei werthu am y cynnig mwyaf mewn arwerthiant ac ni ddylai gael ei adael i ddadfeilio na'i drosglwyddo i ddatblygwr diegwyddor ychwaith.

Dywedodd Kathryn Robson fod y cynnig hefyd wedi'i gefnogi yng nghyfarfod y Cyngor yr wythnos gynt. Ar ôl ymchwilio i'r opsiynau, nid oedd y ddarpariaeth addysgol yn mynd i symud i rywle arall yng Ngwynedd ond byddai'n aros yn adeilad y theatr yn Harlech, trwy cydweithrediad â Theatr Ardudwy. Er bod y penderfyniad wedi'i wneud i gau Wern Fawr at ddibenion dysgu o 31 Gorffennaf ymlaen, roedd llawer o gydweithio gyda grwpiau lleol i sicrhau bod y canlyniadau gorau i'r gymuned yn cael ei wneud o'r safle. Dywedodd Gerry Jenson ei bod hi ac aelodau eraill y Cyngor yn parhau cyfraniadau blaenorol i'r achos yn Harlech, yn dymuno parhau i roi blaenoriaeth i addysg yno a'u bod yn ymwybodol o'r anghenion mwy cyffredinol yn nhref Harlech.

Dywedodd Marilyn Thomas nad oedd hi'n siŵr sut i bleidleisio ar y mater hwn oherwydd diffyg ffeithiau a ffigurau am y sefyllfa bresennol. Dywedodd Evie Wyn

Jones hefyd fod y wybodaeth gefndir yn annigonol, gan gynnwys am yr astudiaeth ddichonoldeb o'r safle a wnaed yng ngwanwyn 2016. Dywedodd Kathryn Robson bod colled flynyddol o oddeutu £100,000 yn cael ei gwneud yno felly bu'n rhaid gweithredu, gan gynnwys diswyddiadau gwaetha'r modd. Dywedodd David Elis-Williams fod yr astudiaeth ddichonoldeb y cyfeiriwyd ati ac a wnaed gan gwmni Clear Thinking ar gael ar ein gwefan. O ran manylion y llyfrgell, nododd Nathan Jones fod cynlluniau wedi dechrau i gatalogio'r casgliad, digideiddio rhywfaint o'i gynnwys a rhannu rhai o'r llyfrau oedd yno, i'w defnyddio mewn manau eraill.

Cytunwyd i'r cynnig fel a ganlyn:

**O blaid: 46
Yn erbyn: 24
Atal pleidlais: 19**

Cynnig 4

Yr ydym ninnau fel aelodau o Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn protestio yn y termau cryfaf posibl i'r Cyngor ac i'r Prif Weithredwr Dros Dro am ddiwedd glo arfaethedig Coleg Harlech.

Dan ymbarél Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ac, yn ddiweddar, Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, mae Coleg Harlech wedi bod yn begwn o addysg er mwyn oedolion o bob rhan o Gymru a'r Deyrnas Unedig. Wedi ei sefydlu'n wreiddiol gan yr undebau llafur mae wedi cynnig cyrsiau, ymhlith amryw, ar gyfer graddau nyrsio, cymwysterau i oedolion sy'n addysgu a mynediad at addysg uwch.

Ni welwn ninnau unrhyw reswm dilys i gau sefydliad addysgol mor werthfawr â hwn. Galwn ar y Cyngor i agor llyfrau ariannol Coleg Harlech a chyhoeddi manylion y modd a waredwyd ar asedau yno dros y 10 mlynedd diwethaf.

Ymbiliwn hefyd ar y Cyngor i chwilio pob ffordd mewn ymdrech i atal yr adnoddau hyn rhag dirwyn i ben.

Cynigydd: Ronnie Parry; Eilydd: Fforwm Dysgwyr Ffestiniog (Dafydd Eurgain Jones).

Cyflwynodd Ronnie Parry ei hun fel cyn-fyfyriwr preswyl yng Ngholeg Harlech a thiwtor ar hyn o bryd gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Dyfynnodd o ddatganiad cenhadaeth diweddar a oedd yn cyfeirio at ddarpariaeth breswyl barhaus ac amlygodd, ers uno CHWEAN a WEA De Cymru yn 2014, fod cyrsiau preswyl yn y Coleg wedi'u hatal mewn modd a oedd yn ymddangos iddo ef yn bolisi bwriadol o ddirywio rheoledig, yr oedd Adroddiad Hancock wedi braenaru'r tir ar ei gyfer. Dyfynnodd o lythyr gan fyfyriwr arall, a gyhoeddwyd yn 2013, a oedd yn amlygu'r effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr difreintiedig a astudiai yno. Ar adegau cythryblus, roedd ar bobl angen llewyrch o obaith tebyg i'r hyn a ddarparwyd i gynifer gan Goleg Harlech yn y gorffennol, sef pobl a aeth ymlaen i wneud cyfraniad nodedig a phwysig. Yn hytrach, colli cyfleoedd i unigolion fyddai'n digwydd yn sgil y cynigion presennol ac nid oedd y gost hon i bobl wedi'i chynnwys yn ystyriaethau fforddiadwyedd y sefydliad. Roedd o'r farn y dylid

gwrthod casgliadau adroddiad Clear Thinking o ddechrau 2016, gan nad oedd hwnnw wedi ystyried gwir werth yr ased i fyfyrwyr yn y dyfodol a'r gymuned leol. Roedd posibiliadau eraill yn parhau, o gyllid llywodraeth ganolog/leol i Gronfa Treftadaeth y Loteri neu arian Cyngor Celfyddydau Cymru. A aethpwyd ar drywydd llwybrau o'r fath neu ai'r cynllun (a adroddwyd ychydig fisoedd yn gynt yn y cyfryngau) oedd am ddefnyddio'r safle at ddiben golff neu amcan corfforaethol tebyg? Ni ddylid gwastraffu ei bwysigrwydd symbolaidd a dylid adeiladu pontydd yn lle hynny, megis yn arwyddair Coleg Harlech - *Avo pen bid pont*.

Ymatebodd David Elis-Williams fel rhywun a oedd â chysylltiadau teuluol â Choleg Harlech ers talwm, a oedd yn wahanol iawn i'r fersiwn presennol. Erbyn hyn, roedd yn arwain Grŵp Strategaeth Harlech ar gyfer y Cyngor ac ni allai gefnogi'r cynnig. Fe wnaeth addef fod popeth wedi'i wneud i barhau ag addysg breswyl ar y safle, ond roedd pob tystiolaeth yn mynd yn groes i ymarferoldeb parhau â hynny. Roedd 'newid bywydau' yn rhan o hyd o weledigaeth y sefydliad presennol hefyd ond roedd yr addysg yn Harlech bellach ar gyfer myfyrwyr lleol yn unig ac roedd y rhan fwyaf o'r adeilad yn cael ei danddefnyddio. Nid y bwriad oedd cau Coleg Harlech yn gyfan gwbl gan ei fod yn fwy na safle yn unig: roeddem yn berchen ar y brand a'r enw da ac, felly, y gallu i'w defnyddio'n ehangach heb gyfyngiad daeryddol. Roedd ymrwymiad i'r hyn a dderbyniwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2016 yn parhau, a'r hyn a oedd ar gael i ni yn hynny o beth oedd adeilad y theatr a chydweithio â Theatr Ardudwy yn y tymor byr, gyda hyblygrwydd gennym o ran y tymor hwy. Gan gyfeirio at eiriad y cynnig, roedd papur wedi'i ddsbarthu'n darparu manylion yr asedau a waredwyd yng Ngholeg Harlech yn 2012-13, pan oedd nifer o eiddo, tir ac eitemau eraill a etifeddwyd wedi'u gwerthu er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau'n hyfyw yn ariannol. Bwriad y sefydliad presennol oedd osgoi gorfod gwneud rhywbeth tebyg unwaith eto.

Dywedodd Kathryn Robson pe bai menter gymdeithasol ar waith, yn gysylltiedig â Theatr Ardudwy, yna gallai Wern Fawr gael ei defnyddio unwaith eto'n safle preswyl. Siaradodd Jeremy Gass yntau. Roedd ei gysylltiadau cyntaf â Choleg Harlech yn dyddio o 1985, pan oedd yn sefydliad ffyniannus, ond roedd Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 wedi achosi problemau gyda'i gysyniad o 'uned gyllid', a wnaeth ostwng posibiliadau incwm Coleg Harlech yn sylweddol. Roedd system fwrariau wedi cynnal cyrsiau preswyl am gyfnod ond, i bob diben, roedd Adroddiad Hancock wedi dod â'r rheiny i ben: felly, penderfyniadau'r llywodraeth a oedd wedi ysgogi dirywiad Coleg Harlech fel yr oedd, nid y cyrff etifedd presennol na blaenorol a gynrychiolwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Felly, teimlai fod yn rhaid iddo bleidleisio yn erbyn y cynnig.

Yn ei hawl i ymateb, fe wnaeth Ronnie Parry ymbil ar i opsiynau eraill a fodolai gael eu harchwilio, gan gynnwys cefnogaeth dyngarwyr, ac y dylid gallu gweld bod hyn yn digwydd er mwyn cynnal treftadaeth y sefydliad i'r graddau mwyaf posibl.

Gwrthodwyd y cynnig fel a ganlyn:

**O blaid: 17
Yn erbyn: 58
Atal pleidlais: 15**

Cynnig 5

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn nodi:

1. Yr ansicrwydd ac anniddigrwydd a fynegwyd yn Fforwm Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru yn Rhosbodruall ar 2 Mawrth 2017 ynghylch dyfodol y cwrs Technoleg Cerddoriaeth ym Mlaenau Ffestiniog.
2. Y traddodiad cryf gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales (a'i sefydliadau blaenorol) ers 2002 o ddarparu cyrsiau Technoleg Cerddoriaeth hir a byr a chysiau creaddigidol eraill nid yn unig yng Ngholeg Harlech ond yn y gymuned hefyd.
3. Y buddsoddiad sylweddol a fu yn y maes dros y blynyddoedd a'r adnoddau sydd yn dal yn ein meddiant.
4. Pwysigrwydd a photensial galwedigaethol a diwylliannol y diwydiant/diwylliant cerddoriaeth (a diwydiannau creadigol eraill cysylltiedig, gan gynnwys y cyfryngau traddodiadol a newydd).
5. Potensial eithriadol y maes hwn hefyd o ran yr agenda llesiant, codi hyder, ail gyfle i oedolion ifanc, ymgysylltu democrataidd a chyfrannu i gymunedau.

Yn y cyd-destun uchod mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn yn gofyn i Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales:

- A. Sicrhau fod sefyllfa'r ddarpariaeth ym Mlaenau Ffestiniog yn cael ei ddatrys mewn modd adeiladol.
- B. Bod gweithgor yn cael ei sefydlu i ddatblygu a chyd-lynu strategaeth gwricwlaidd genedlaethol uchelgeisiol ac arweiniol o ran technoleg cerddoriaeth (a darpariaeth greaddigol a chreaddigidol arall).
- C. Bod archwiliad o'r adnoddau creaddigidol presennol o eiddo Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cael ei wneud, ynghyd ag asesiad o adnoddau cymunedol a chenedlaethol eraill allai fod ar gael i'w defnyddio.
- D. Bod buddsoddiad arwyddocaol yn cael ei wneud i gefnogi'r strategaeth gydag ystyriaeth i adnoddau symudol, a ellid eu symud o gymuned i gymuned yn ôl y galw, gyda chanolfan arweiniol iddynt.
- E. Bod Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn ystyried a sefydlu eu hunan fel rhan bwysig o'r diwydiant a'r diwylliant cerddoriaeth a chreaddigidol yng Nghymru gan fapio rhwydwaith o bartneriaid y gellid cydweithio â nhw. Mae'n bwysig hefyd ddatblygu elfen gref o'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi datblygiad y sin gerddorol Gymraeg yn benodol – yn ogystal ag ieithoedd eraill.

Cynigydd: Fforwm Dysgwyr Ffestiniog (Dafydd Eurgain Jones); Eilydd: Fforwm Dysgwyr Neuadd Ogwen (Dilwyn Llwyd).

Rhoddodd Dafydd Eurgain Jones sylwadau ar y sefyllfa ansicr a phryderus yn gysylltiedig â'r cwrs Technoleg Cerddoriaeth y bu'n ei astudio, a wnaeth ysgogiddo gyflwyno'r cynnig. Fodd bynnag, roedd trafodaethau diweddar wedi sicrhau addewid gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales y byddai dyfodol y cwrs yn cael ei ailystyried. Ar sail hynny, roedd ef, ar ran y Fforwm Dysgwyr a gyflwynodd y cynnig, yn ei dynnu'n ôl.

	<p>Dywedodd Nathan Jones y bu heriau yn sicr dros y flwyddyn academiaidd hyd yn hyn, gyda'r rheidrwydd i graffu'n benodol ar gost y cwrs oherwydd nifer cymharol fach y dysgwyr a oedd yn ei ddilyn. Roedd ateb bellach wedi'i ganfod a oedd yn dderbyniol i'r dysgwyr a'r tiwtoriaid dan sylw, sef symud y cwrs o'i leoliad blaenorol ym Mlaenau Ffestiniog i Harlech, i'w gysylltu â chwrs technoleg cerddoriaeth yn Theatr Ardudwy. O ran y pwyntiau ehangach eraill yn y cynnig a dynnwyd yn ôl, pwysleisiodd fod rheolwyr y sefydliad yn ymroddedig i ymchwilio ymhellach i'r rheiny ac roedd am ddiolch i'r dysgwyr a'r tiwtoriaid am eu hamynedd wrth ymroi yn y modd hwn i fater mor bwysig, gan felly helpu dod o hyd i ateb.</p> <p><i>(Ni chynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gan ei fod wedi'i dynnu'n ôl: roedd y pleidleisiau dirprwyol a ddaeth i law ymlaen llaw yn ddi-rym, felly.)</i></p>
9.	<p>Sylwadau i Gau</p> <p>Diolchodd John Graystone i bawb am eu cyfraniadau at y digwyddiad ac am gymryd rhan yn nhräfodaethau'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a diolchodd hefyd i staff Porth Eirias am eu croeso a'u paratodau. Dymunodd daith ddymunol adref i bawb.</p>